

Nest

Adroddiad Blynyddol

2019 – 2020



Rhan o raglen Cartrefi Cylw Llywodraeth Cymru
Part of the Welsh Government Warm Homes programme



**Nyth
Nest**

Gwneud
Cymru'n
Glyd
Making
Wales
Cosy



**Cartrefi Cylw
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Warm Homes**



**Llywodraeth Cymru
Welsh Government**

Rhagair y Gweinidog

Mae cartrefi da yn helpu i greu cymunedau cydlynus sy'n gweithredu'n dda lle y gall pawb chwarae rhan.



Mae ein Rhaglen Cartrefi Clyd yn parhau i wneud cyfraniad sylweddol i wella ansawdd ein cartrefi, gan gefnogi pobl sy'n cael trafferth talu costau ynni eu cartref, a hefyd gyfrannu at ein huchelgeisiau i leihau allyriadau carbon i'n hamgylchedd naturiol.

Fel rhan o Raglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru, mae Cynllun Nyth wedi bod yn gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi ers 2011, gan eu gwneud yn lleoedd cynhesach a mwy cyfforddus. Mae ein cynllun wedi parhau i gefnogi rhai o'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas drwy wella eu gallu i wrthsefyll afiechyd y gellid ei osgoi, gan leihau marwolaethau cynamserol. Mae creu cartref cyfforddus hefyd yn rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i'n plant, i'w helpu i wireddu eu llawn botensial.

Yn 2019, cymeradwyais gynigion i ymestyn ac ehangu Cynllun Peilot Iechyd Nyth er mwyn helpu pobl sy'n byw gyda chyflwr anadlol, cyflwr cylchrediad y gwaed neu gyflwr iechyd meddwl. Mae'r newidiadau a gymeradwywyd gennyf, a ddaeth i rym ym mis Gorffennaf 2019, wedi ei gwneud hi'n haws i bobl sy'n byw ar incwm is a gyda chyflwr iechyd fanteisio ar gynllun Nyth. Mae hyn wedi arwain at fwy na 1,000 o bobl yn cael help, na fyddent fel arall wedi cael cymorth o dan y cynllun hwn.

Yn 2019-20, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid o £20.6m i gyflwyno Cynllun Nyth i helpu i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi a mynd i'r afael â thlodi tanwydd. Gall gwella effeithlonrwydd ynni ein cartrefi wneud gwahaniaeth mawr i filiau trydan a helpu pobl hefyd i ymdopi'n well â chynnydd mewn prisiau ynni yn y dyfodol. Drwy'r cynllun hwn, rydym hefyd wedi sicrhau bod cyngor ar ynni a chymorth arall ar gael i helpu pobl i wneud y gorau o'u harian.

Mae Nyth wedi rhoi help a chymorth i 15,823 o bobl drwy eu cyfeirio at nifer o wasanaethau trydydd parti, fel gwiriadau hawl i fudd-daliadau er mwyn sicrhau cymaint o incwm â phosibl, rheolwyr cyngor ariannol ac wedi helpu pobl i hawlio eu Gostyngiad Cartrefi Clyd gan eu darparwr ynni. Mae pobl sy'n byw mewn mwy na 4,500 o gartrefi wedi cael budd o fesurau effeithlonrwydd ynni yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Mae Cynllun Nyth hefyd yn bwysig i leihau allyriadau carbon. Un o'r heriau datgarboneiddio mwyaf rydym yn eu hwynebu yn ystod y tri degawd nesaf yw sicrhau bron dim allyriadau carbon o adeiladau. Er nad cynllun datgarboneiddio yw Nyth yn bennaf, mae buddiannau uniongyrchol carbon yn cyfrannu i'r amcan hwn. Bydd y

gwersi a ddysgwyd, gan Lywodraeth Cymru a'r gadwyn gyflenwi yn cael eu cymhwysu at gynlluniau i gyflwyno'r gwaith o ddatgarboneiddio adeiladau yn y dyfodol.

Ynghyd â rhaglenni a chynlluniau eraill a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, mae hyn yn dystiolaeth bellach ein bod

yn bodloni ein rhwymedigaethau i fynd i'r afael â thlodi tanwydd, sy'n parhau i ddifetha bywydau pobl sy'n ei chael hi'n anodd cael deupen llinyn ynghyd.

Lesley Griffiths AM

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig



Cynnwys

- 2 Rhagair gan Lesley Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
- 5 Crynodeb Gweithredol
- 6 Dull Marchnata
- 8 Partneriaethau
- 9 Cyngor a Chymorth
 - Gwiriadau Hawl i Fudd-daliadau
 - Gwasanaethau Gofal a Thrwsio
 - Gostyngiad Cartrefi Cynnes
 - Gwasanaethau Tân
 - Cwmnïau Dŵr
 - Gwasanaeth Cyngor ar Arbed Ynni
 - Cymru Effeithlon
- 11 Pecynnau Gwella Ynni Cartref
- 12 Nodweddion Aelwydydd ac Eiddo
- 14 Gwella Effeithlonrwydd Ynni
- 16 Buddsoddiad Llywodraeth Cymru
- 17 Cyllid ECO
- 17 Boddhad Deiliaid Tai
- 18 Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- 19 Sicrhau Buddiannau Ychwanegol
- 20 Edrych i'r Dyfodol

Crynodeb Gweithredol

Mae cynllun Nyth Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru yn darparu gwelliannau effeithlonrwydd ynni i gartrefi incwm isel a'r rheini sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd ledled Cymru.

Yn 2019-20, buddsoddwyd £20.6 miliwn o gyllid Llywodraeth Cymru mewn effeithlonrwydd ynni'r stoc dai ledled Cymru, gan helpu i leihau biliau tanwydd a gwella iechyd a llesiant yr aelwydydd sydd fwyaf mewn angen.

Yn ystod 2019-20, rhoddodd cynllun Nyth gyngor diduedd i 15,823 o aelwydydd, ynghyd a'u cyfeirio at amrywiaeth o wasanaethau cymorth, a hynny i gyd am ddim.

Gwnaed gwelliannau i gartrefi mwy na 4,500 o'r 15,823 o aelwydydd a gafodd gymorth eleni gyda phecyn o fesurau effeithlonrwydd ynni yn y cartref am ddim, megis system gwres canolog, boeler neu insiwleiddio.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi cyflawniadau cynllun Nyth o ran rhoi cyngor a chymorth i aelwydydd mewn tlodi tanwydd yn 2019-20.

Yn 2019-20, roedd prif gyflawniadau cynllun Nyth fel a ganlyn:

- afodd 15,823 o aelwydydd gyngor diduedd am ddim ar arbed ynni
- cafodd 4,544 o aelwydydd becyn gwelliannau ynni cartref, gan arbed £282 y flwyddyn ar eu biliau ynni a fodelwyd ar gyfartaledd
- Cynnydd cyfartalog a fodelwyd mewn sgôr effeithlonrwydd ynni o fwy na 43 o bwyntiau SAP
- Gostyngiad cyfartalog a fodelwyd o 17,934 o unedau ynni fesul aelwyd
- Arweiniodd Gwiriadau Hawl i Fudd-daliadau at gynnydd posibl o £2,202 ar gyfartaledd yn y budd-daliadau a hawliwyd gan aelwydydd
- Cafodd yr holl osodiadau eu cwblhau gan osodwyr wedi'u lleoli yng Nghymru
- Cefnogodd y cynllun 28 o swyddi a phrentisiaethau newydd yn uniongyrchol

Caiff cynllun Nyth ei reoli gan Nwy Prydain, sy'n gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, ar ran Llywodraeth Cymru.

Roedd y blaenoriaethau ar gyfer cynllun Nyth yn 2019-20 fel a ganlyn:

- Gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau partner i sicrhau bod y cynllun yn cyrraedd yr aelwydydd mwyaf agored i niwed yng Nghymru.
- Datblygu gwaith ymgysylltu â'r sector iechyd ymhellach i brofi'n llawn y broses atgyfeirio iechyd broffesiynol am 12 mis arall i bobl sy'n dioddef o gyflyrau iechyd cronig sy'n effeithio ar eu system anadlol neu gylchrediad y gwaed sydd yn aml yn gwaethygu o ganlyniad i fyw mewn cartref oer neu laith.
- Ymchwilio i'r amrywiaeth o gyflyrau iechyd meddwl sy'n effeithio ar bobl yng Nghymru ac er mwyn gweld ai deiliaid tai â chyflyrau iechyd meddwl penodol fyddai'n cael y budd mwyaf o becyn o fesurau effeithlonrwydd ynni drwy gynllun Nyth.
- Parhau i gyfrannu at strategaethau ynni a thlodi Llywodraeth Cymru.
- Gweithredu yn unol â'r gwerthoedd a nodwyd yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan gynnwys cydweithredu, integreiddio ac atal.


Dull Marchnata

Seiliwyd y dull marchnata ar gyfer 2019-20 ar y wybodaeth helaeth a'r arbenigedd a gafwyd o ddarparu'r cynllun ers 2011. Defnyddiwyd dadansoddiad cwsmeriaid a gwybodaeth o'r data i lywio'r gwaith marchnata, gan ymgorffori'r dangosyddion demograffig a daearyddol, er mwyn sicrhau y cyrhaeddwyd y cwsmeriaid yr oedd angen cymorth arnynt fwyaf drwy ddefnyddio'r dull cyfathrebu mwyaf priodol.

Roedd yr amrywiaeth o weithgareddau hyrwyddo a ddefnyddiwyd i ymgysylltu â chwsmeriaid yn cynnwys ymgyrchoedd hysbysebu ledled Cymru, ymgysylltu â phartneriaethau a gweithgareddau cyhoeddusrwydd wedi'u targedu'n benodol at ardaloedd ledled Cymru lle mae amddifadedd ar ei uchaf.

Mae defnyddio Rheolwyr Datblygu Partneriaethau i ymgysylltu'n strategol â rhanddeiliaid allanol yn rhoi cyfle i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun ymhlith cynulleidfaoedd mwyaf anodd i'w cyrraedd.

Ymholiadau gan yr Awdurdod Lleol





Canolbwynt yr holl weithgarwch marchnata yw gwefan Nest a gafodd 83,570 o ymweliadau yn 2019-20.

Yn ystod y flwyddyn, gwelodd y gweithgarwch marchnata gynnydd sylweddol yn nifer yr ymholiadau a gafwyd drwy'r wefan, ynghyd â gweithgarwch digidol (gan gynnwys Google Adwords, Optimeiddio Peiriannau Chwilio a hysbysebion Facebook am dâl) gydag ymholiadau yn cynyddu o 16% i 23.7%.


Mae cyfuniad o weithgareddau marchnata wedi'u targedu a gweithgareddau ymgysylltu â phartneriaid yn rhoi cyfle i'r cynllun gyrraedd cynulleidfaoedd yn uniongyrchol lle mae'r potensial mwyaf i leihau tloedi tanwydd yng Nghymru.

Mae pwyslais cryf ar ohebiaeth farchnata gan bartneriaid yn y post wedi helpu i gynhyrchu'r ganran fwyaf o ymholiadau yn uniongyrchol, sef 34% yn ystod y flwyddyn, wedi'i dilyn gan ymholiadau yn sgil argymhelliad personol, a gyfrannodd at 27% o'r ymholiadau cychwynol. Arweiniodd y gweithgareddau a gyflawnwyd gan y rheolwyr datblygu partneriaethau a'r sefydliadau partner yn uniongyrchol at 13.5% o'r ymholiadau yn ystod y flwyddyn, a chynhyrwyd 1.9% o ymholiadau drwy weithgarwch yn y cyfryngau.



“Mae delio â Nyth wedi bod mor hawdd, o’r alwad ffôn gychwynol, gwnaethon nhw ddelio â’r cyfan! Cefais y wybodaeth ddiweddaraf am bopeth, ond doedd dim angen i mi boeni am wneud galwadau ffôn na rhoi trefn ar bethau, mae hynny’n helpu mwy na dim. Mae fy nghartref gymaint yn gynhesach, ac mae’n gwneud byd o wahaniaeth pan fyddwch yn troi’r tap ymlaen ac mae dŵr poeth yn arllwys ohono! Ers blynyddoedd lawer, cyn i’r system roi’r gorau i weithio, des i i’r arfer â gorfod cynhesu’r dŵr am oriau yn gyntaf, ac hyd y oed wedyn, nid oedd mor boeth â’r dŵr sydd ar gael nawr. Mae’n arbennig a dylai mwy o bobl wybod am Nyth a sut y gall y cynllun eu helpu.”

Un o drigolion Y Rhondda



Partneriaethau

Mae'r Rheolwyr Datblygu Partneriaethau yn gweithio gydag awdurdodau lleol, byrddau iechyd, elusennau a sefydliadau cymunedol ledled Cymru er mwyn helpu i gyrraedd cartrefi y gallai cyngor a chymorth cynllun Nyth fod o fudd iddynt.

Mae'r partneriaethau hyn yn chwarae rôl hollbwysig wrth sicrhau bod y cynllun ar gael i'r bobl hynny sydd fwyaf agored i niwed a mwyaf anodd eu cyrraedd..

- Awdurdodau Lleol (e.e. swyddogion tai, gwasanaethau gofalwyr, cynhwysiant ariannol ac ynni)
- Pobl sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol (e.e. Cymdeithas y Gofalwyr, Banciau Bwyd a Home-Start Cymru)
- Pobl Hŷn (e.e. Y Groes Goch, Age Cymru, Cymru Gynnes, Gofal a Thrwsio ac Age Connects)
- Y Sector Iechyd (e.e. Byrddau Iechyd Lleol, Fferylliaeth Gymunedol Cymru ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru)
- Pobl â salwch hirdymor (e.e. Parkinson's UK, Macmillan, Y Gymdeithas Strôc, Gofalwyr Cymru)
- Pobl sy'n gwella ar ôl salwch meddwl (e.e. Hafal, Fforymau Cymunedau)
- Gwasanaethau cyngori (e.e. Cyngor ar Bopeth, Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Y Gwasanaeth Arian a Phensiynau, Elusen y Diwydiant Glo – Sefydliad Lles Cymdeithasol y Diwydiant Glo)

Mae cwsmeriaid yn ymddiried mewn sefydliadau partner, yn enwedig grwpiau agored i niwed sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol y mae angen sicrwydd arnynt fod y cynllun yn gyfreithlon, neu grwpiau sydd ag anghenion amryfal a Nyth yw rhan o'u datrysiad.

Mae meithrin ac atgyfnerthu cydberthnasau drwy'r Rheolwyr Datblygu Partneriaethau, megis Age Cymru, Cymru Gynnes a Gofal a Thrwsio yn galluogi'r cynllun i gynyddu ei gynulleidfaoedd allweddol yn sylweddol drwy gysylltu â nhw ar eu llwyfannau, eu sianeli a'u rhwydweithiau.

Mae Rheolwyr Datblygu Partneriaethau yn mabwysiadu dull strategol o Ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae hyn yn caniatáu iddynt gael trafodaethau mwy rheolaidd â'r un sefydliad, gan helpu i feithrin cydberthnasau parhaus a datblygu gweithgareddau er mwyn helpu i gyflawni amcanion y cynllun.

Mae awdurdodau lleol hefyd yn darparu cydberthynas strategol allweddol ar gyfer y cynllun. Mae'r Rheolwyr Datblygu Partneriaethau yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol ledled Cymru. Mae'r partneriaethau hyn yn rhoi cyfle i Nyth hyrwyddo'r cynllun ymhlith staff a thrigolion ar draws gwahanol awdurdodau lleol. Gwneir hyn drwy gynnal digwyddiadau,

ar wefannau'r awdurdodau lleol ac ymgyrchoedd hyrwyddo wedi'u targedu, megis gohebiaeth farchnata uniongyrchol.

Mae'r astudiaethau achos canlynol yn dangos enghreifftiau o waith partneriaeth llwyddiannus:

Awdurdodau Lleol

Cyngor Castell-nedd Port Talbot

Ar ôl cael cyfarfodydd â thîm strategaeth dai Cyngor Castell-nedd Port Talbot ac mewn partneriaeth â'r tîm budd-daliadau, cyflwynodd y Rheolwyr Datblygu Partneriaethau ohebiaeth farchnata i drigolion Castell-nedd Port Talbot a sesiwn cyngor cyhoeddus. Roedd tua 40 o drigolion yn bresennol yn y sesiwn a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ddinesig Castell-nedd. At ei gilydd, cynhaliwyd ymgyrchoedd gohebiaeth marchnata ar y cyd mewn partneriaeth ag 11 o awdurdodau lleol, gan gynnwys Caerffili, Caerdydd, Caerfyrddin, Ceredigion, Ynys Môn, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Sir Benfro, Powys, Rhondda Cynon Taf ac Abertawe.

Byrddau Iechyd

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Rhoddodd y Rheolwyr Datblygu Partneriaethau gyflwyniadau i'r Tîm Therapi Galwedigaethol a Thîm Macmillan yn Ysbysty Singleton yn Abertawe. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt â thîmau iechyd unigol ar draws pob un o'r saith Bwrdd Iechyd yng Nghymru, gan alluogi'r staff i helpu cleifion sydd â chyflyrau anadlol, cardiofasgwlaidd ac iechyd meddwl i gael cymorth Nyth.

Partneriaethau Trydydd Sector

Age Cymru

Mae'r Rheolwyr Datblygu Partneriaethau yn darparu hyfforddiant a diweddariadau rheolaidd i dimau Age Cymru ledled Cymru. Mae Age Cymru yn bartner dibynadwy, ac mae'n chwarae rôl allweddol wrth alluogi pobl hŷn i gael gafael ar gymorth Nyth, gan sicrhau bod eu cartrefi yn ddiogel ac yn gynnes.

Gwasanaethau Cyngor

Cyngor ar Bopeth

Mae'r Rheolwyr Datblygu Partneriaethau wedi parhau i weithio'n agos gyda Chyngor ar Bopeth ledled Cymru ac yn darparu sesiynau briffio a diweddariadau yn rheolaidd i dimau rheoli, staff parhaol a gwirfoddolwyr ar draws rhanbarthau. Mae Cyngor ar Bopeth yn darparu gwasanaeth galw heibio, gwasanaeth cyngor dros y ffôn Cymru Gyfan, ynghyd â digwyddiadau wyneb yn wyneb a leolir yn y gymuned. Mae'r Rheolwyr Datblygu

Partneriaethau wedi cefnogi a chydweithio yn rheolaidd ar nifer o'r digwyddiadau hyn, yn enwedig digwyddiadau 'drws agored' mewn gwahanol leoliadau yn y gymuned ledled Cymru. Mae'r Rheolwyr Datblygu Partneriaethau wedi cefnogi Cyngor ar Bopeth yn ystod ei ymgyrch Wythnos Fawr Arbed Ynni ym mis Ionawr. Roedd hyn yn cynnwys digwyddiadau galw heibio yn eu swyddfeydd a chanolfannau cymunedol lleol, yn ogystal ag archfarchnadoedd a banciau bwyd lleol.

Cymru Gynnes

Mae'r Rheolwyr Datblygu Partneriaethau wedi gweithio'n agos gyda staff rheng flaen Cymru Gynnes er mwyn galluogi

eu defnyddwyr gwasanaeth i gael cymorth drwy gynllun Nyth. I ddechrau, wrth i hyfforddiant Nyth gael ei ddarparu i staff, mae'r rheolwyr datblygu partneriaeth wedi gweithio'n agos gyda'r timau i gefnogi atgyfeiriadau unigol a wneir drwy Brosiect Cartref Iach Pobl Iach Cymru Gynnes, a ariennir gan Wales & West Utilities ac a gefnogir gan awdurdodau lleol. Lansiwyd y prosiect yng Nghaerdydd ym mis Medi 2017 a chaiff ei gyflwyno gan Weithwyr Cymunedol sy'n ymweld ag aelwydydd agored i niwed er mwyn rhoi cyngor wyneb yn wyneb, cymorth ac atgyfeiriadau er mwyn sicrhau bod gan drigolion gartref diogel a chynnes. Caiff y prosiect ei ddarparu yn y gogledd hefyd, lle mae'r tîm yn cael atgyfeiriadau am gymorth gan staff y rheng flaen.

Cyngor a Chymorth

Yn 2019-20, rhoddodd Nyth gyngor wedi'i deilwra ac atgyfeiriadau at wasanaethau trydydd parti i 15,823 o aelwydydd.

Mae pob cwsmer sy'n ffonio llinell gymorth Nyth yn cael cyngor a chymorth wedi'u teilwra gan dîm cyngor Nyth er mwyn sicrhau y cânt yr help mwyaf priodol i ddiwallu eu hanghenion penodol. Mae hyn yn cynnwys cyngor ar arbed ynni ac effeithlonrwydd dŵr, pecyn o welliannau effeithlonrwydd ynni cartref am ddim, a chyfeirio ac atgyfeirio at amrywiaeth o wasanaethau cymorth.


Cymorth gan Drydydd Parti

Yn 2019-20, cafodd 8,828 o aelwydydd eu hatgyfeirio at un neu fwy o wasanaethau trydydd parti, neu argymhellwyd y dylent gysylltu â gwasanaethau o'r fath. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys y canlynol:

- **Gwiriadau hawl i fudd-daliadau** – mae Canolfan Gyngori Riverside yn darparu gwasanaeth adolygu i gwsmeriaid Nyth i'w helpu i wneud y mwyaf o'u hincwm.
- **Cyngor ar reoli arian** – mae'r Gwasanaeth Cyngori Ariannol yn rhoi cyngor annibynnol i gwsmeriaid ar reoli dyled ac ymdrin ag incwm a thaliadau'n fwy effeithiol.
- **Gwasanaethau Gofal a Thrsio** – mae Gofal a Thrsio yn darparu gwasanaeth tasgmon, gwasanaeth gweithiwr achos, help gyda grantiau ac offer gwresogi dros dro i gwsmeriaid cymwys.
- **Cyngor ar dariffau ynni** – mae Simply Switch yn rhoi cyngor annibynnol i gwsmeriaid ar y tariff a'r cyflenwr mwyaf effeithiol ar gyfer amgylchiadau'r cwsmer.
- **Gostyngiad Cartrefi Cynnes** – mae'r prif gyflenwyr ynni yn rhoi gostyngiad oddi ar filiau ynni cwsmeriaid cymwys.
- **Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth** – caiff cwsmeriaid cymwys eu hatgyfeirio at Western Power Distribution i gael cymorth ychwanegol os bydd toriad yn y cyflenwad trydan.
- **Gwasanaethau Tân ac Achub** – gall aelwydydd sy'n agored i niwed gael gwiriad diogelwch tân ar gyfer y cartref drwy Wasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorrlewin Cymru.
- **Cynlluniau fforddiadwyedd dŵr** – mae Nyth yn atgyfeirio cwsmeriaid at amrywiaeth o gynlluniau fforddiadwyedd a weithredir gan Dŵr Cymru.

- **Gwasanaethau cyngori eraill** – caiff cwsmeriaid nad ydynt yn gymwys i gael un o becynnau gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref Nyth eu cyfeirio at sefydliadau priodol eraill.

Aelwydydd sy'n cael Atgyfeiriad / Argymhelliad Trydydd Parti



Gwiriadau Hawl i Fudd-daliadau

Yn ystod y flwyddyn, atgyfeiriwyd 706 o aelwydydd i gael gwiriad hawl i fudd-daliadau a nodwyd bod 238 o'r aelwydydd hynny yn gymwys i gael budd-daliadau newydd neu ychwanegol gwerth £2,202 fesul aelwyd, ar gyfartaledd. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o £524,076 yn y budd-daliadau y manteisiwyd arnynt eleni, sef cynnydd o £248,076 o gymharu â 2018-19.

Gwiriadau Hawl i Fudd-daliadau	
Nifer y deiliaid tai a atgyfeiriwyd	706
Nifer y deiliaid tai a hawliodd fudd-daliadau newydd/ychwanegol	238
Cynnydd cyfartalog yn yr incwm blynyddol	£2,202

Gwasanaethau Gofal a Thrwsio

Mae asiantaethau Gofal a Thrwsio yn darparu amrywiaeth o wasanaethau er mwyn helpu pobl hy'n i fyw mewn cartrefi diogel sy'n briodol i'w hanghenion. Gwnaeth Nyth gyfeirio ac atgyfeirio 1,048 o aelwydydd at asiantaethau Gofal a Thrwsio yn 2019-20, sef cynnydd o 175 o gymharu â 2018-19.

Gwasanaethau Gofal a Thrwsio	
Nifer y deiliaid tai a atgyfeiriwyd	1048
Nifer yr aelwydydd sy'n defnyddio gwasanaeth i'r anabl	172
Nifer y deiliaid tai a ddefnyddiodd y gwasanaeth Tasgmon	59
Nifer y deiliaid tai a ddefnyddiodd y gwasanaeth offer gwresogi dros dro	0
Nifer y deiliaid tai a gafodd Cymorth Grant	160
Nifer y deiliaid tai a ddefnyddiodd y gwasanaeth Gweithiwr Achos	228
Nifer y deiliaid tai a gafodd gyngor yn unig	21

Gostyngiad Cartrefi Cynnes

Atgyfeiriwyd cyfanswm o 2,875 o gwsmeriaid at eu cyflenwr ynni ar gyfer y Gostyngiad Cartrefi Cynnes yn 2019-20, gyda 453 o gwsmeriaid Nyth yn gymwys ar gyfer y gostyngiad, sef arbedion gwerth cyfanswm o £63,280. Mae hwn yn gynnydd o £1,260 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Warm Home Discount	
Nifer y deiliaid tai a atgyfeiriwyd	2875
Nifer y deiliaid tai a gafodd y Gostyngiad Cartrefi Cynnes	452
Gwerth y Gostyngiad Cartrefi Cynnes	£63,280

Gwasanaethau Tân ac Achub

Atgyfeiriodd Nyth 862 o gwsmeriaid at Wasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru, a chafodd 116 ohonynt wiriad diogelwch tân ar gyfer y cartref, sef cynnydd o 61 o gymharu â 2018-19.

Fire Service	
Number of householder referrals	862
Number of householders receiving home safety report	116

Cwmnïau Dŵr


Mae Nyth yn atgyfeirio cwsmeriaid at gynlluniau fforddiadwyedd Dŵr Cymru gan gynnwys HelpU, Dŵr Uniongyrchol, Cronfa Cymorth i Gwsmeriaid a Water Sure. Eleni, atgyfeiriwyd 2,160 o gwsmeriaid gyda 159 yn cael budd o gymorth a gostyngiad ôl-ddyledion, sef cynnydd o 17 o gymharu â 2018-19.

Cwmnïau Dŵr	
Nifer yr aelwydydd a atgyfeiriwyd	2160
Cwsmeriaid yn cael budd o HelpU	132
Cwsmeriaid yn cael budd o Dŵr Uniongyrchol	13
Cwsmeriaid yn cael budd o'r Gronfa Cymorth i Gwsmeriaid	3
Cwsmeriaid yn cael budd o Water Sure	11

Cymorth ar reoli arian

Cyfanswm y cwsmeriaid a gafodd gyngor ar reoli arian oedd 1,074, a chafodd 693 arall gyngor ar reoli dyledion, cynnydd o 299 o gymharu â 2018-19.

Gwasanaethau Cyngori Eraill	
Cymorth ar reoli arian	1074
Ceisio cyngor ar ddyledion	693



Pecynnau Gwella Ynni Cartref

Mae cynllun Nyth Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth i aelwydydd mewn tlodi tanwydd gan leihau biliau ynni tanwydd drwy ddarparu gwelliannau effeithlonrwydd ynni am ddim yn y cartref.

Caiff cwsmeriaid sy'n cysylltu â Nyth i gael cyngor a chymorth eu hasesu i weld a ydynt yn gymwys i gael pecyn o welliannau effeithlonrwydd ynni cartref am ddim a all gynnwys boeler newydd, system gwres canolog a / neu ddeunydd inswleiddio.

Y meini prawf ar gyfer gwelliannau cartref yw bod aelod o'r aelwyd yn cael budd-dâl sy'n dibynnu ar brawf modd a bod y cartref yn eiddo preifat neu'n cael ei rentu â sgôr ynni ddangosol o E, F neu G, neu fod aelod yn byw gyda chyflwr iechyd (mewn eiddo preifat neu'n cael ei rentu â sgôr o D E, F neu G) ac yn ennill incwm sydd islaw'r trothwyon diffiniedig.

Cynllun peilot iechyd Nyth

Cyflwynwyd meini prawf iechyd cynllun Nyth Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru ym mis Medi 2017 i gyrraedd aelwydydd â phobl sy'n byw gyda chyflwr iechyd a waethygir gan dai oer neu laith, ac sy'n byw mewn tlodi tanwydd neu'n wynebu risg o dlddi tanwydd. Ymestynnwyd y peilot cychwynnol ym mis Ionawr 2018 tan fis Gorffennaf 2019 pan gyflwynwyd cyfres newydd o feini prawf, yn dilyn gwerthusiad manwl o'r cynllun peilot cychwynnol ym mis Ebrill 2018 ac adolygiad a gwerthusiad pellach.

Ar ôl y cynllun peilot a'r gwerthusiad cyntaf, cynhaliwyd cyfnod o ymgynghori rhwng Llywodraeth Cymru a gweinyddwyr y cynllun. Cydnabuwyd bod y ffactorau sy'n sbarduno polisiâu, yn enwedig i gefnogi pobl sy'n byw gyda chyflwr iechyd a wathygir gan gartref oer neu laith ac incwm isel, sy'n wynebu risg o fyw mewn tlodi tanwydd, yn parhau i fod yn bwysig i gynllun Nyth. Felly adolygwyd y meini prawf, y dulliau cyflenwi a'r dull o gyfathrebu, a lansiwyd cynllun peilot meini prawf iechyd newydd ym mis Gorffennaf 2019.

Aseswyd cyfanswm o 5,692 o aelwydydd drwy'r meini prawf iechyd rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Chwefror 2020 ar ôl methu â bodloni'r meini prawf budd-dâl sy'n dibynnu ar brawf modd y cynllun. O'r rhain, roedd 2,460 (43%) yn bodloni'r meini prawf cyflwr iechyd ac eiddo, ac fe'u cyfeiriwyd ar gyfer asesiad incwm gyda 1,329 (23%) yn pasio ac felly'n bodloni'r holl feini prawf iechyd – gosodwyd mesurau mewn 1,066 o'r aelwydydd hyn.

Roedd y rhan fwyaf o'r atgyfeiriadau ar sail meini prawf iechyd ar gyfer aelwydydd agored i niwed:

- 71% yn 60 oed neu'n hŷn.
- 41% mewn aelwydydd gydag un incwm yn 60 oed neu'n hŷn.
- 28% mewn aelwydydd lle roedd dau oedolyn yn 60 oed neu'n hŷn.
- roedd 60% o aelwydydd yn byw mewn eiddo gyda sgôr effeithlonrwydd ynni o E, F neu G.
- roedd 40% o aelwydydd yn byw mewn eiddo gyda sgôr effeithlonrwydd ynni o D.
- mae 55% o aelwydydd yn ennill incwm sydd 80% islaw'r trothwyon incwm a 15% yn is na 50% o'r trothwy incwm.

Gweithio mewn partneriaeth


Mae Nyth yn gweithio mewn partneriaeth â Rhentu Doeth Cymru i sicrhau bod pob landlord preifat wedi'i gofrestru yn swyddogol cyn cael cymorth gan y cynllun ar gyfer eu heiddo ar rent.

Bydd asesydd cwbl gymwys yn ymweld â chartref y cwsmer i gwblhau asesiad o'r tŷ cyfan, yn nodi'r mesurau mwyaf priodol a chosteffeithiol ar gyfer yr eiddo ac yn cadarnhau a yw'r cwsmer yn gymwys. Mae tîm Nyth yn sicrhau bod yr holl ganiatadau a chydysyniadau gofynnol (landlordiaid, cynllunio ac ati) a gofynion trydydd partïon (cysylltiadau nwy, cael gwared ar asbestos ac ati) yn cael eu cwblhau cyn cytuno ar y dyddiadau gosod â'r cwsmer.

Caiff yr holl wasanaethau gosod eu darparu gan rwydwaith o osodwyr yng Nghymru, o dan oruchwyliaeth a rheolaeth tîm Nyth. Cynhelir archwiliad o'r gwaith unwaith y bydd tîm Nyth wedi derbyn cadarnhad bod y pecyn o fesurau wedi'i osod. Os bydd arolygydd Nyth yn nodi unrhyw ddiffygion yn y gwaith, bydd yn sicrhau bod unrhyw waith adferol sydd ei angen yn cael ei gwblhau'n gyflym ac yn effeithiol.

Caiff pecynnau gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref Nyth eu cynllunio ar gyfer eiddo unigol felly nid oes pecyn safonol o fesurau, ond gallent gynnwys boeler newydd, system gwres canolog, inswleiddio'r atig neu inswleiddio waliau ceudod a gall rhai ohonynt gynnwys technolegau mwy diweddar fel pypmpiau gwres ffynhonnell aer ac inswleiddio waliau allanol.

Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith y mae cynllun Nyth yn ei gyflawni yn parhau i ymwneud â systemau gwres canolog. Mae'r gosodiadau hyn yn cynnwys sawl mesur e.e. boeler, rheiddiaduron, thermostat ar gyfer ystafelloedd, rheolyddion gwres, falfiau rheiddiaduron thermostatig a phibellau lle y bo angen.



Nodweddion Aelwydydd ac Eiddo

Nod Nyth yw codi pobl allan o dlodi tanwydd lle y bo'n bosibl.


Yn ystod y broses o wneud cais, gofynnir i ddeiliaid tai nodi eu hincwm. Caiff y wybodaeth hon ei hasesu yn erbyn costau rhedeg wedi'u modelu ar gyfer eu cartref. Mae hyn yn galluogi Tîm Cyngor Nyth i asesu a yw'r cwsmer yn byw mewn tloidi tanwydd.

Ystyrir bod aelwydydd sy'n gwario mwy na 10% o'u hincwm ar filiau ynni yn byw mewn tloidi tanwydd ac ystyrir bod aelwydydd sy'n gwario mwy nag 20% yn byw mewn tloidi tanwydd difrifol.


Roedd 36.3% o aelwydydd a gysylltodd â Nyth yn byw mewn tloidi tanwydd cyn cael gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref. Mae hyn yn cynnwys 9.6% o aelwydydd a oedd yn byw mewn tloidi tanwydd difrifol.

Ar ôl gosod mesurau effeithlonrwydd ynni cartref, gostyngodd y nifer o dai a oedd yn wynebu tloidi tanwydd o 26.7% i 16.8%, a gostyngodd y nifer o aelwydydd a oedd yn wynebu tloidi tanwydd difrifol o 9.6% i 5%.

Mae'r siart isod yn dangos dadansoddiad o ddeiliadaeth ar gyfer aelwydydd a gafodd becyn gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref; roedd 77.8% yn eiddo i berchen-feddianwyr a 22.2% wedi'u rhentu'n breifat.




63.7% Ddim mewn Tloidi Tanwydd, 26.7% Mewn Tloidi Tanwydd, 9.6% Mewn Tloidi Tanwydd Difrifol




77.8% Perchennog, 22.2% Eiddo wedi'u rhentu'n breifat

Mae'r siart isod yn dangos dadansoddiad o'r deiliaid tai a gafodd becyn gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref yn ôl eu hoedran. Mae'r newidiadau mwyaf rhwng y grwpiau oedran 24-59 (i lawr o 53.3% yn 2018-19 i 47.9%) a 70 a throsodd (i fyny o 28.1% yn 2018-19 i 32.3%)



78.1% Ddim mewn Tloidi Tanwydd, 16.8% Mewn Tloidi Tanwydd, 5% Mewn Tloidi Tanwydd Difrifol




2.6% 0 dan 24, 47.9% 24-59, 17.3% 60-69, 32.3% 70 a throsodd

Dangosir dadansoddiad o ddisbarthiad trefol a gwledig¹ cwsmeriaid a gafodd becyn gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref yn y siart isod. Nodir bod 70.5% o'r aelwydydd yn byw mewn ardaloedd trefol (sef cynnydd o 2.5% o gymharu â 2018-19) a 20.5% yn byw mewn ardaloedd gwledig (sef gostyngiad o 2.5% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol).





welliannau effeithlonrwydd ynni wedi aros yr un fath ag yn ystod 2018-19, sef 28%, ond cynyddodd nifer y tai seagl ychydig o 8.9% yn 2018-19 i 9.2%, ynghyd â fflatiau o 6.9% yn 2018-19 i 7.2%.



Nid oedd 19.9% o gwsmeriaid wedi'u cysylltu â'r grid nwy cyn i fesurau gael eu gosod o dan y cynllun, sy'n ostyngiad bach o gymharu â 21.1% yn 2018-19, fel y dangosir yn y siart isod.

Mae'r siart isod yn nodi rhagor o fanylion am y math o fesurau oddi ar y prif gyflenwad nwy a gwblhawyd yn ystod 2019-20.



Dangosir dadansoddiad o aelwydydd sydd wedi cael pecyn gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref yn ôl math o eiddo yn y graff isod. Eiddo teras (canol a phen teras) yw'r math o eiddo a gaiff ei drin amlaf o dan y cynllun o hyd, gan gyfrif am 40.7% o'r holl waith gosod, sef gostyngiad bach o gymharu â 41.4% yn 2018-19. Arhosodd nifer y tai semi a oedd yn cael pecyn o

¹ Mae'r diffiniadau o Drefol a Gwledig yn seiliedig ar ddisbarthiadau a dderbynnir sydd ar gael gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Gwella Effeithlonrwydd Ynni

Mae gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref Nyth wedi sicrhau arbedion amcangyfrifedig o £282 y flwyddyn fesul aelwyd ar filiau ynni ar gyfartaledd, gan wneud gwahaniaeth gwirioneddol i aelwydydd mewn tloedi tanwydd.



Mae'r siartiau hyn yn dangos dadansoddiad fesul band SAP ar gyfer aelwydydd cyn ac ar ôl iddynt gael pecynnau gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref. Roedd pob eiddo lle y gosodwyd mesurau yn aelwyd effeithlon iawn o ran ynni – sgôr E (6.3%), F (32.1%) neu G (61.6%).

Ar ôl gosod y pecyn o welliannau ynni cartref, cynyddodd sgôr 83.2% o eiddo i C i D (sef cynnydd o 3.2% o gymharu â 2018-19) a chynyddodd sgôr 14.4% o eiddo arall i E a 2.4% i F. Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r eiddo a gafodd welliannau yn parhau i fod â sgôr E am na fu'n bosibl dangos y byddai'r mesurau mwy cynhwysfawr a oedd yn ofynnol yn sicrhau gwerth am arian. Yn 2019-20, nid oedd yr un eiddo wedi aros ym Mand G.

Mae cynllun Nyth yn cyfrifo effeithiau gwelliannau effeithlonrwydd ynni ar gartrefi gan ddefnyddio sgôr RdSAP². Mae'r feddalwedd yn mesur sgôr SAP cyn ac ar ôl i fesurau addas gael eu gosod. Y nod yw gosod pecyn o fesurau er mwyn cynyddu sgôr ynni eiddo tuag at sgôr SAP o C lle y bo'n bosibl, pan fo'n gosteffeithiol i wneud hynny. Caiff y mesurau gwirioneddol a osodir eu halfodelu er mwyn ystyried unrhyw newidiadau i'r pecyn gwreiddiol o ganlyniad i broblemau technegol neu am fod cwsmeriaid wedi newid eu meddwl.

Mae aseswr Nyth yn nodi sgôr SAP gyfredol yr eiddo a'r sgôr SAP bosibl pe bai pecyn gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref yn cael ei osod. Mae eiddo band A yn defnyddio ynni'n effeithlon iawn a'r rhain fydd â'r costau rhedeg isaf; mae gan eiddo band G sgôr effeithlonrwydd ynni wael sy'n golygu y bydd yn costio mwy i'w gwresogi a'u goleuo i'r un safon.

Mae budd-daliadau yn seiliedig ar ganlyniadau a fodelwyd a bydd y gostyngiadau a'r arbedion gwirioneddol yn dibynnu ar ymddygiad y cwsmer unigol. Yn aml, nid yw aelwydydd mewn tloedi tanwydd yn gwresogi eu cartrefi yn effeithiol ac felly, mewn rhai achosion, bydd y buddiannau i'r cwsmer yn cynnwys eiddo mwy cyfforddus a gwell lles wrth i'r cartref gael ei wresogi'n fwy effeithiol, yn hytrach na gostyngiad mewn biliau tanwydd.



² RdSAP a SAP – Y Weithdrefn Asesu Safonol yw methodoleg Llywodraeth y DU ar gyfer asesu a chymharu perfformiad ynni a pherfformiad amgylcheddol anheddau. Cyflwynwyd SAP data gostyngol (RdSAP) yn ddiweddarach fel ffordd fwy costeffeithiol o asesu anheddau a oedd yn bodoli eisoes..

Mae'r siart yn dangos dadansoddiad o arbedion ynni a fodelwyd fesul aelwyd lle y gosodir mesurau yn ôl awdurdod lleol, gydag arbediad cyfartalog amcangyfrifedig o £282 y flwyddyn neu 17,934 megajoule y flwyddyn (i fyny o 17,744 yn 2018-19).

Mae hefyd yn dangos dadansoddiad yn ôl gostyngiadau mewn allyriadau carbon drwy gydol oes yr aelwydydd sy'n cael pecyn gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref. Yn ôl yr hyn a fodelwyd, bydd cyfanswm yr allyriadau oes yn gostwng 96k tCO gan amrywio o 1.4k tCO yn Sir Fynwy i dros 13k tCO yn Sir Gaerfyrddin.

Awdurdod Lleol	Cyfanswm yr Arbedion CO2 Oes Gyfan (tCO)	Arbedion Cyfartalog o ran y Defnydd o Ynni (megajoules)	Arbedion Blynyddol Cyfartalog o ran Cost Tanwydd
Blaenau Gwent	2117	19133	£230
Pen-y-bont ar Ogwr	4023	17566	£226
Caerffili	5331	18411	£249
Caerdydd	4956	16838	£219
Sir Gaerfyrddin	13045	19378	£323
Ceredigion	5066	19877	£519
Conwy	3421	16627	£223
Sir Ddinbych	3535	14817	£202
Sir y Fflint	2414	15571	£211
Gwynedd	5941	19904	£500
Ynys Môn	4608	18754	£402
Merthyr Tudful	1713	18508	£246
Sir Fynwy	1364	16394	£294
Castell-nedd Port Talbot	2576	19193	£250
Casnewydd	2034	15884	£184
Sir Benfro	5369	17809	£386
Powys	5197	18287	£402
Rhondda Cynon Taf	10520	18496	£233
Abertawe	7331	18125	£240
Bro Morgannwg	2272	17712	£238
Torfaen	1746	16157	£239
Wrecsam	1689	15259	£212
Cyfanswm	96267	17934	£282


“Diolch yn fawr iawn am bopeth, roedd yn wych gwybod y gallwn eich ffonio yn ôl ar unrhyw adeg tra roeddwn i'n poeni. Rwy'n gwerthfawrogi'n fawr nad oeddech wedi rhoi'r gorau iddi a'ch bod wedi datrys y broblem!”
Un o drigolion Caerdydd

Buddsoddiad Llywodraeth Cymru

Yn ystod 2019-20, buddsoddodd Llywodraeth Cymru £20.6 miliwn drwy fesurau Nyth.


Mae'r graff yn dangos canran y gwaith gosod a gwblhawyd yn ôl ardal awdurdod lleol, ynghyd â'r ganran amcangyfrifedig o aelwydydd mewn tloedi tanwydd, yn seiliedig ar arolwg Cyflwr Tai Cymru ar 2017-18.

Gwaith gosod yn ôl Ardal Awdurdod Lleol / Canran yr Aelwydydd mewn Tloedi Tanwydd



Proffil Gwariant Cyfartalog Awdurdodau Lleol

Mae'r siart hon yn dangos y gwariant cyfartalog ar welliannau effeithlonrwydd ynni cartref yn ôl awdurdod lleol.




Bodddhad Deiliaid Tai


Mae bodddhad cwsmeriaid â Nyth wedi bod yn gyson uchel drwy gydol oes y cynllun. Yn 2019-20, nododd 98.4% o gwsmeriaid eu bod yn fodlon ar y gwasanaethau cynghori a gwaith gosod a ddarparwyd gan Nyth.

Caiff pob deiliad tŷsy'n derbyn cyngor gan y cynllun arolwg drwy'r post a gofynnir iddo sgorio'r gwasanaeth yn ôl ei foddhad. Caiff bodddhad deiliaid tai ei gofnodi a'i reoli, gan gynnwys unrhyw gwynion sy'n ymwneud â phob cam o daith y cwsmer.

Mae'r siartiau isod yn dangos bod nifer y cwynion a gafwyd yn cynrychioli dim ond 1.65% o'r holl gwsmeriaid a gafodd becyn gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref a bod y mwyafrif o gwsmeriaid (98.4%) yn fodlon ar y gwasanaeth gosod a ddarparwyd.



98.3% Do 1.65% Nadoo



1.6% Ddim yn fodlon 98.4% Bodlon

"Mae gwybod bod y gwres bellach yn gweithio wedi rhoi tawelwch meddwl i ni. Hefyd, mae gennym ddŵr poeth drwy'r amser, ac sy'n fwy ecogyfeillgar. Nid yw ein hincwm wedi cynyddu ond mae gennym fwy o arian wrth law o ganlyniad i arbed costau dŵr. Diolch am roi trefn ar y gostyngiad ar y cyfraddau dŵr – rydym wedi arbed swm mawr o arian."

Un o drigolion Sir y Fflint

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Nod cynllun Nyth yw cyrraedd pob rhan o gymdeithas er mwyn sicrhau bod aelwydydd y mae angen cymorth arnynt yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael a'u bod yn gallu defnyddio'r cynllun.

Mae gwaith y Rheolwyr Datblygu Partneriaethau, yn benodol, yn gosod y cynllun ochr yn ochr ag amrywiaeth o bartneriaid sy'n cynnig cymorth hanfodol i aelwydydd ledled Cymru. Mae'r cyngor a'r gwasanaeth cyfeirio sydd ar gael gan Nyth yn aml yn cyfrannu at ddatrysiad aml-asiantaeth i deuluoedd sy'n wynebu sawl her.

Mae tîm Nyth yn gweithio gyda Byrddau Iechyd Lleol, tîmau rhyddhau a meddygfeydd ac ysbytai cymuned. Mae Rheolwyr Datblygu Partneriaethau Nyth wedi datblygu partneriaethau cyfredol a phartneriaethau newydd o fewn y sector iechyd gan gydnabod yr effaith y gall cartref oer ei chael ar iechyd a llesiant person.

Mae Rheolwyr Datblygu Partneriaethau Nest wedi meithrin cydberthnasau â nifer o sefydliadau yn y trydydd sector sy'n gweithio gyda phobl ag anghenion cyfathrebu penodol, gan gynnwys Parkinson's UK, Headway, Mind Cymru, Y Gymdeithas Strôc a Deafblind.

Hefyd, gweithiodd y tîm gydag elusennau sy'n cynorthwyo pobl â salwch hirdymor, gan gynnwys Macmillan, Cymdeithas Alzheimer's, Mencap, Y Gymdeithas Macwlaidd a Chyfeillion Dementia, gan gydnabod yr anawsterau ariannol y gall pobl â chyflyrau penodol eu hwynebu.

Mae Nyth yn parhau i gynnal cydberthnasau â sefydliadau sy'n cynorthwyo pobl hyn yng Nghymru. Mae'r Rheolwyr Datblygu Partneriaethau wedi gweithio'n agos gydag asiantaethau Age Cymru ac Age Connects a chyda Gofal a Thrwio lle mae proses atgyfeirio ddwy ffordd yn sicrhau bod deiliaid tai yn cael gafael ar y gwasanaethau penodol a ddarperir gan y ddau sefydliad.

Ynghyd â'r gweithgareddau ymgysylltu mewn partneriaeth, mae gwybodaeth am gynllun Nyth ar gael mewn nifer o fformatau gwahanol gan gynnwys fformat hawdd ei ddarllen, braille, sain, print bras a digidol ac mewn sawl iaith. Cefnogir yr adnoddau hyn gan Language Line er mwyn cynnig gwasanaeth dehongli i'r cwsmeriaid hynny lle nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf a thrwy wasanaeth minicom neu wasanaeth Next Generation Text i gwsmeriaid sy'n fyddar neu â nam ar eu lleferydd, er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu defnyddio'r cynllun.

Mae'r gweithgareddau hyn yn tanlinellu ymrwymiad cynllun Nyth i weithredu o fewn y set o werthoedd a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan gynnwys cydweithredu, integreiddio ac atal.

"Gwnaeth y peirianwyr a alwodd heibio waith arbennig. Roeddent yn broffesiynol, yn wybodus ac yn weithgar iawn ac yn gwneud i dasg lafurus ymddangos yn syml! Roeddent yn dda iawn gyda mi hyd yn oed – roeddwn yn bryderus am gael pobl ddieithr yn fy nghartref, ac roeddent mor hyfryd am hynny hefyd. Gwnaethant dawelu fy meddwl ac roeddent yn empathetig ynghylch y sefyllfa. Rwy'n ddiolchgar iawn."

Un o drigolion Casnewydd

Sicrhau Buddiannau Ychwanegol

Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflawni buddiannau cymunedol drwy weithgarwch caffael wedi'i gynllunio i sicrhau bod materion cymdeithasol ac economaidd ehangach yn cael eu hystyried wrth wario arian cyhoeddus.

Y bwriad yw sicrhau'r gwerth gorau am arian yn ei ystyr ehangaf. Mae cynllun Nyth Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ei strategaeth buddiannau cymunedol yn ymgorffori ac yn sicrhau canlyniadau ar gyfer pob un o'r canlynol:

- Creu swyddi a chyfleoedd hyfforddi ar gyfer grwpiau â blaenoriaeth.
- Mentrau cymorth addysgol.
- Hyfforddiant galwedigaethol ac uwchsgilio'r gweithlu presennol.
- Mentrau cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Meithrin gallu mewn sefydliadau cymunedol.
- Datblygu Cadwyni Cyflenwi.
- Cyfleoedd is-gontractio i BBaCh, y trydydd sector a busnesau a gefnogir.

Mae cynllun Nyth yn parhau i ragweld y bydd lluosydd lleol o £2 yng Nghymru. Mae'r lluosydd hwn yn mesur sut mae gwariant cynllun Nyth yn cynhyrchu effaith economaidd leol a budd i gymunedau – am bob £1 a gaiff ei gwario ar gynllun Nyth, mae gwerth £2 wedi'i dychwelyd mewn budd economaidd. Mae'n ofynnol i Nwy Prydain, sef rheolwr cynllun Nyth, annog BBaChau yng Nghymru i gymryd rhan wrth iddynt gaffael contractwyr safle a chyflenwyr eraill. Mae Nyth yn parhau i gefnogi contractwyr ac yn eu hannog i dderbyn prentisiaid i weithio ar y cynllun.

Fel cyflogwr yng Nghymru, mae Nyth yn parhau i gefnogi'r cymunedau y mae'n gweithio ynddynt ac ysbrydoli pobl ifanc gydag amrywiaeth o fentrau cyflogaeth. Y llynedd, cofrestrodd Nyth â'r cynllun Hyderus o ran Anabledd. Mae'r cynllun hwn yn cefnogi cyflogwyr fanteisio ar y talentau y gall pobl anabl eu cynnig i'r gweithle. Mae sefydliadau Hyderus o ran Anabledd yn chwarae rhan flaenllaw wrth newid agweddau er gwell, gan newid ymddygiad a diwyllianau o fewn busnesau, rhwydweithiau a chymunedau a manteisio i'r eithaf ar arferion recriwtio cynhwysol. Gan adeiladu ar ei statws Cyflogwr Hyderus Anabledd L1, mae Nyth yn ymfalchïo yn y ffaith ei fod wedi cael ei gydnabod yn ddiweddar fel Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd L2.

Gan ddangos cefnogaeth ac ymrwymiad parhaus i'w gontractwyr, lansiodd Nyth raglen ariannu prentisiaid. Mae'r rhaglen hon wedi sicrhau bod pedair prentisiaeth a ariennir i gontractwyr, a hynny am gyfnod o ddwy flynedd, gan ddarparu cyllid i'r prentisiaid ar gyfer cyfarpar a hyfforddiant ar ben hynny. Mae hyn wedi galluogi'r contractwyr hyn i feithrin gallu yn eu timau a'u gweithlu, gan ddarparu cyfleoedd cyflogaeth yn eu hardal leol.

Mae Nyth yn falch iawn o fod yn aelod o raglen Dosbarth Busnes Busnes yn y Gymuned. Caiff Dosbarth Busnes ei ddarparu gan Gyfrfa Cymru ac, yn ystod 2019-20, cynhaliodd Nyth sesiynau ymgysylltu i fwy na 2,500 o fyfyrwyr fel rhan o bartneriaeth barhaus drwy ddarparu'r canlynol:

- Gweithdai cyflogadwyedd, yn canolbwyntio ar ysgrifennu CV a sgiliau Cyfsweld.
- Hwyluso rhaglen cydnabod a gwobrwyo presenoldeb ar draws y pum ysgol uwchradd ym Merthyr Tudful. Roedd hyn er mwyn cefnogi ymgyrch yr Awdurdod Lleol, 'Colli Ysgol, Colli Alln'.
- Hyder a chyflwyniadau gwaith grŵp.
- Disgwyliadau perffaith a sesiynau paratoi.

Cynhaliwyd cystadleuaeth flynyddol Cre8 Nyth (sef cystadleuaeth rhwng ysgolion gyda'r nod o wella dewisiadau gyfrfa disgyblion ysgol a'u dealltwriaeth, lle mae myfyrwyr yn dylunio cynnyrch sy'n effeithlon o ran ynni gan ddefnyddio deunyddiau eildro) yn ardal y gogledd orllewin, a gafodd ei hagar yn swyddogol gan Lesley Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru.

Fel estyniad o Cre8, addaswyd y cysyniad er mwyn cyweddau â chymhwyster Bagloriaeth Cymru i fod yn Her Menter a Chyflogadwyedd CBAC gymeradwy. Diben yr Her Menter a Chyflogadwyedd yw datblygu sgiliau'r dysgwyr, gan ddarparu cyfleoedd iddynt ddatblygu sgiliau a doniau menter, a gwella cyflogadwyedd ar yr un pryd. Yn ystod yr Her Menter a Chyflogadwyedd, bydd dysgwyr yn datblygu sgiliau Creadigrwydd ac Arloesi, Effeithiolrwydd Personol a Llythrennedd Ddigidol yn benodol. Yr her yw creu cynnyrch/gwasanaeth newydd sy'n effeithlon o ran ynni ac yn ymgorffori ffynonellau ynni adnewyddadwy. Bydd myfyrwyr yn gweithio gyda'i gilydd am nifer penodol o oriau ac yn cyflwyno eu syniad terfynol i banel asesu Nyth. Bydd sgoriau asesu'r myfyrwyr yn cyfrannu at radd gyffredinol eu cymhwyster Bagloriaeth Cymru.

Cydnabyddir yn eang fod merched yn cael eu tangynrychioli mewn Diwydiannau STEM. Felly fel rhan o fentrau cydraddoldeb ac amrywiaeth Nyth, eleni, mae Nyth wedi gweithio gyda Technocamps. Mae Technocamps yn falch iawn o arwain rhaglen newydd arloesol, a ddyluniwyd i annog menywod ifanc i ddewis gyrfaoedd STEM, GiST (Merched mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg) Cymru. Cefnogodd Nyth lansiad swyddogol GiST Cymru ym Mhrifysgol De Cymru gyda thros 130 o ferched o ysgolion ledled y de-ddwyrain a'r Cymoedd yn bresennol, er mwyn cael gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt ym maes Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Edrych i'r dyfodol

Gyda chynllun presennol Nyth Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru yn ei drydedd flwyddyn yn 2020-21, mae'r angen i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a helpu'r rhai sydd fwyaf mewn angen mor bwysig ag erioed.

Mae Cynllun Nyth wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru i gefnogi aelwydydd y mae COVID-19 yn effeithio arnynt. Ers dechrau'r cyfyngiadau symud rhwng diwedd mis Mawrth a 30 Mehefin 2020, mae'r cynllun wedi bod yn gweithio ar sail 'achosion brys yn unig', a helpodd dros 300 o aelwydydd yng Nghymru a oedd heb ddŵr, gwres neu lle roedd perygl i fywyd. Mae tîm cynghori Nyth hefyd wedi parhau i gynnig cymorth i gwsmeriaid drwy ei rif rhadffôn a'i e-bost. O 1 Gorffennaf 2020, mae cynllun Nyth wedi dychwelyd i 'fusnes fel arfer' lle y gall pob aelwyd sy'n gymwys i gael gwelliannau effeithlonrwydd ynni gael gwaith wedi'i wneud, gyda gosodwyr yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar reoli'r risg o COVID-19.

Bydd cynllun Nyth yn parhau i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru ac yn gwneud y canlynol:

- Gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau partner i sicrhau bod y cynllun yn cyrraedd yr aelwydydd hynny sydd â'r angen mwyaf.
- Datblygu gwaith ymgysylltu â'r sector iechyd ymhellach i brofi'n llawn y broses atgyfeirio iechyd broffesiynol am 12 mis arall i bobl sy'n dioddef o gyflyrau iechyd cronig sy'n effeithio ar eu system anadlol neu gylchrediad y gwaed sydd yn aml yn gwaethygu o ganlyniad i fyw mewn cartref oer neu laith.
- Ymchwilio i amrywiaeth o gyflyrau iechyd meddwl sy'n effeithio ar bobl yng Nghymru ac er mwyn gweld ai deiliaid tai â chyflyrau iechyd meddwl penodol fyddai'n cael y budd mwyaf o becyn o fesurau effeithlonrwydd ynni drwy gynllun Nyth.
- Sicrhau cyllid ychwanegol i'r cynllun o'r Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni, er mwyn helpu mwy o aelwydydd incwm isel i gael budd o welliannau effeithlonrwydd ynni cartref.

- Parhau i gyfrannu at strategaethau ynni a thlodi Llywodraeth Cymru.
- Gweithredu ar argymhellion Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru.
- Parhau i helpu mentrau Tai cydweithredol a chefnogi'r sector rhentu preifat.
- Gweithredu yn unol â'r gwerthoedd a nodwyd yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan gynnwys cydweithredu, integreiddio ac atal.

Bydd cynllun Nyth yn parhau i ddatblygu ei weithgareddau sydd o fudd i'r gymuned. Gan weithio gyda'n rhwydwaith o osodwyr a chyflenwyr yng Nghymru, bydd Nyth yn arwain tîm o wirfoddolwyr er mwyn cynnal prosiect adfywio cymunedol ac adnewyddu adeilad neu ardal gymunedol ar y cyd â phartneriaid lleol.

Bydd cynllun Nyth hefyd yn cynyddu cyfleoedd i hyrwyddo cyflogaeth a dysgu, mewn partneriaeth â Chanolfannau Swyddi lleol a Gyrfa Cymru. Bydd Nyth hefyd yn parhau â'i bartneriaeth â rhaglen Dosbarth Busnes gan Busnes yn y Gymuned gan gefnogi clwstwr Blaenau'r Cymoedd a Wrecsam.